Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Prynhawn Coffi – Diolch am eich cefnogaeth i'r Prynhawn Coffi – Llwyddwyd i godi swm o £1,750 i gefnogi adnoddau a gweithgareddau'r ysgol.

Barddoniaeth gyda Dewi Pws - Mi fydd bechgyn Blwyddyn 5 yn cerdded i Lyfrgell y dre ar gyfer gweithdy barddoniaeth ar brynhawn ddydd Mercher, Mawrth 18fed. Mi fydd angen y festiau llachar ar gyfer cerdded i'r dre.

Yr Ardd Natur – **<u>Mi fyddwn angen eich help ddydd Iau o 3.30 – 5 o'r gloch</u>** – Y bwriad yw palu, cribinio, casglu cerrig a hau hadau porfa mewn ardal sydd wedi ei glustnodi ar gyfer lawnt. Dewch â fforch a rhaca os oes modd!

Eisteddfod Ysgol – Gofynnir yn garedig i ddisgyblion gyrraedd yr ysgol ychydig yn gynt ar ddiwrnod yr eisteddfod ysgol (dydd Gwener, Mawrth 20fed) rydym am gychwyn yr eisteddfod yn brydlon am 9 o'r gloch. (ceisiwch gyrraedd erbyn 8.50) NI FYDD CINIO POETH AR GAEL AR DDIWRNOD YR EISTEDDFOD. Mi fydd angen pecyn bwyd ar gyfer amser cinio. Mae gwahoddiad i'r disgyblion i wisgo gwisg Gymreig neu liwiau'r timau.

Trawsgwlad Dyfed – Mi fydd rhai disgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn y digwyddiad yma yng Nghaerfyrddin ar brynhawn ddydd Llun, Mawrth 23ain am 4.30 (rhagor o fanylion i ddilyn)

Casglu Dillad – Mae'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon am gefnogi cynllun 'ailgylchu dillad.' Mi fydd modd i'r ysgol dderbyn tua £400 am bob tunnell o ddillad a gesglir. Mi fydd disgyblion yn derbyn bag gwag. Gobeithio y bydd modd i chwi lenwi'r bag gyda dillad a'i ddychwelyd i'r ysgol ar Ebrill 1af.

Noson Agored – Cynhelir y noson agored ar brynhawn ddydd Mercher, Ebrill 1af o 3.45 – 6 o'r gloch. Mi fydd angen i chwi wneud apwyntiad drwy gwblhau y rhestr sydd ar ddrws dosbarth eich plentyn. Mae'r un drefn yn bodoli ar gyfer gweld Mrs Julie Williams o'r adran Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Gwyliau'r Pasg – Mi fydd yr ysgol yn cau am 2 o'r gloch ar ddydd Gwener, Ebrill 3ydd ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 20fed.

Os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams

Pennaeth 17/03/09

Gwefan
www.ysgolgymraeg.com

e-bost
prif@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Prifathro / *Headteacher:* Mr R. Clive Williams

Coffee Afternoon - Thank you for your support during the Coffee Afternoon. A total of £1,750 was raised to support the school's resources and activities.

Poetry Workshop with Dewi Pws – Year 5 boys will be taking part in a poetry workshop at the Town Library on Wednesday afternoon. Pupils will need their high visibility vests for the walk to town.

The Nature Garden – **We need your help this Thursday afternoon from 3.30 – 5 o'clock**. The aim is to dig, rake, collect stones and sow grass seeds in an area that we have set aside for a lawn. Please bring a garden fork and a rake if you can!

School Eisteddfod – We kindly ask pupils to arrive at school slightly earlier on school Eisteddfod day (Friday, March 20th) we aim to start promptly at 9 o'clock (try to arrive by 8.50) THERE WILL BE NO HOT DINNER AVAILABLE ON EISTEDDFOD DAY. A packed lunch will be required for lunch time. Children are invited to wear Welsh costume or team colours.

Dyfed Cross country – Some pupils will be representing the school at this event at Carmarthen on Monday afternoon, March 23rd at 4.30 (more details to follow)

Collecting clothes – The P.T.A. are keen to support a project to recycle clothes. The school will receive £400 for every tonne of clothes collected. Children will receive a bag, hopefully you will be able to fill the bag and return it to school on April 1st.

Open Evening – The open evening will be held on Wednesday, April 1st, 3.45 – 6 o'clock. You will need to make an appointment by filling in the table on your child's class door. The same arrangement is in place to make an appointment to see Mrs Julie Williams from the Additional Educational Needs department.

Easter Holidays – The school will close at 2 o'clock on Friday, April 3rd and will re-open on Monday, April 20th.

If you have any worries regarding your child's education then please contact me immediately.

R C Williams, Pennaeth 17/03/09